

Y Llyfr gan Sarah Scott

Roedd popeth yn dawel yn y bwthyn. Roedd fflamau'n dawnsio dros y glo yn y lle tân. Yn y gornel roedd bachgen bach yn eistedd yn llonydd wrth y bwrdd. Yn sydyn, taflodd e llyfr nodiadau i'r llawr.

'Beth sy'n bod Dewi?' gofynnodd llais menyw o'r gegin.

'Mae'n gas 'da fi ysgrifennu', atebodd y bachgen.

'Rhaid i ti geisio', meddai'r fenyw.

'Fydda i byth yn gallu creu stori'.

Ochneidiodd ei fam. Doedd dim pwynt dadlau. Roedd Dewi wastad wedi bod yn blentyn styfnig. Ers marwolaeth ei dad, roedd e'n fwy anodd nag erioed. Ar ôl eiliad, cwmpodd ei llygaid ar becyn llychlyd tu ôl i'r badell ffrio. Yn dyner, cymerodd hi lyfr mawr, brown oddi ar y silff, yn tynnu'r llwch oddi arno.

'Dere', murmurodd hi wrth gerdded ar draws y parlwr. Gosododd hi'r pecyn ar y bwrdd.

Trodd y bachgen i'r dudalen cyntaf yn chwilfrydig.

Milwr oedd y dyn ifanc yn y llun du a gwyn. Roedd e'n edrych yn ddifrifol ond yn falch. Roedd gwallt golau gyda fe. Yr un fath â'r bachgen.

Doedd Dewi ddim yn gallu cofio ei dad. Gadawodd e gyda'r bois eraill o'r pentre. Dylen nhw fod wedi dod adre erbyn y Nadolig. Ond, daethon nhw erioed adre.

Am awr, darllenodd Dewi'r llythyrau a'r cardiau post yn y llyfr. Cafodd e ei gludo i'r gorffennol mewn gwlad dramor. Profodd e arswyd y Rhyfel. Yr ofnau. Yr hiraeth am newyddion oddi wrth y cartref. Trodd e'r tudalen nesa. Roedd e'n wag.

Edrychodd y bachgen i fyny. Doedd e erioed wedi teimlo mor agos at ei dad. Meddylodd e am fywyd wedi'i dorri'n fyr. Meddylodd e am ei fywyd ei hun. Roedd un peth yn sicr. O hyn ymlaen basai pethau'n wahanol.

Cododd e'r llyfr nodiadau o'r llawr. Yn benderfynol, dechreuodd e ysgrifennu... 'Y Llyfr'.